

PAPUR / ENCLOSURE
B

CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYFARFOD:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	13 Mawrth 2013
TEITL YR ADRODDIAD:	Adrodd ar gyhoeddi Cofrestrau Statudol ar-lein
ADRODDIAD GAN:	Arweinydd Tîm Gwasanaethau Ar-linell
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor

1. Cofrestr Safonol o Ddiddordebau a Chofrestr o Roddion a Lletygarwch

Bydd y Gofrestr o Roddion a Lletygarwch ar gael ar-lein o 1 Mawrth 2013. Bydd yr holl eitemau a ychwanegir at y Gofrestr ysgrifenedig hefyd yn cael eu hychwanegu at y system Modern.Gov a byddant ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

Mae'r Gofrestr Safonol o Ddiddordebau wedi bod ar gael ar-lein trwy'r system e-ddemocratiaeth Modern.Gov newydd ers dechrau Ionawr 2013. O fis Mai-Mehefin 2013, bydd yr holl aelodau etholedig newydd yn cael hyfforddiant ar sut i ddiweddarau'r fersiwn ar-lein. Bydd y cyfieithiad(Cymraeg neu'r Saesneg) yn cael ei roi i mewn gan y Cynorthwy-ydd Gweinyddol, Gwasanaethau Pwyllgor.

2. Cofrestr o Ddiddordebau a Ddatganwyd mewn Cyfarfodydd

Mae'r elfennau rhaglen a phapurau pwyllgor o'r system Modern.Gov newydd wedi bod yn weithredol ers cychwyn mis Ionawr, ac maent wedi bod yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngwyd ers hynny. Mae'r Gofrestr o Ddiddordebau a ddatgelir mewn Cyfarfodydd yn cael ei chyhoeddi trwy'r system Modern.Gov newydd fel y mae ar hyn o bryd h.y. mae nodyn yn cael ei ychwanegu at y cofnodion yn dweud bod datganiad o ddiddordeb wedi ei wneud a'i gofnodi.

Yn ogystal, mae'r holl ddiddordebau sy'n cael eu datgan mewn cyfarfodydd yn cael eu rhoi i mewn i'r system Modern.Gov ar wahân fel bod modd i'r cyhoedd chwilio am ddatganiadau o ddiddordeb a wnaed gan aelodau unigol mewn unrhyw Bwyllgor, ar unrhyw ddyddiad. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhoi i mewn gan y Swyddogion Pwyllgor, Gwasanaethau Pwyllgor.

3. Hyfforddiant i Aelodau

Bydd y Gwasanaethau Adnoddau Dynol yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth TGCh i roi hyfforddiant, yn dibynnu ar yr adnoddau fydd ar gael, i bob aelod etholedig ar ôl etholiad llywodraeth leol Mai 2013 fel rhan o'u rhaglen hyfforddi ar gyfer 2012/13.